

Cytundebau Rhyngwladol:

Adroddiad ar y cytundeb rhwng
y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar
fasnach nwyddau

Mai 2019

Cyflwyniad

Trafododd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau yn ei gyfarfodydd ar 29 Ebrill 2019 ac 20 Mai 2019.

Gwnaethom gytuno i lunio adroddiad ar y cytundeb oherwydd bylchau sylweddol yn ei gynnwys o'i gymharu â pherthynas bresennol yr UE â Gwlad yr Iâ a Norwy o dan gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.



Y cefndir

- 1.** Cytundeb parhad masnach yw'r cytundeb ar fasnachu nwyddau rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy.
- 2.** Mae testun y cytundeb a'r dogfennau esboniadol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU [i'w gweld ar-lein](#).
- 3.** Cafodd y cytundeb ei osod gerbron Senedd y DU ar 12 Ebrill ac mae cyfnod 21 diwrnod y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Rheoleiddiol yn dod i ben ar 3 Mehefin 2019.

Asesiad cyfreithiol

A yw'r cytundeb yn ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd y Cynulliad?

Ydi, mae'r cytundeb yn ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Asesiad polisi

A oes goblygiadau polisi i Gymru?

Oes, fel y nodir yn yr adran hon.

- 4.** Mae Norwy a Gwlad yr Iâ yn aelodau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (yr AEE). Mae Cytundeb yr AEE yn ymestyn Marchnad Sengl yr UE i gynnwys y gwledydd hynny sy'n aelodau o'r AEE a'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd, sef Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein. Gan hynny, mae'r AEE yn cynnwys 31 o wledydd - 28 aelod-wladwriaeth yr UE, yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, a Norwy. Ar hyn o bryd, fel aelod o'r Undeb Ewropeaidd, mae'r DU yn rhan o Cytundeb yr AEE. Mae'r cytundeb sydd dan sylw yma yn un rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy. Mae'r DU wedi dod i gytundeb â Liechtenstein y bydd yn ymestyn rhai o ddarpariaethau'r cytundeb rhwng y DU a'r Swistir i gynnwys Liechtenstein. Mae hyn yn bosibl gan fod Liechtenstein a'r Swistir mewn undeb tollau â'i gilydd.
- 5.** Mae'r berthynas agos rhwng Gwlad yr Iâ, Norwy a'r UE yn cyfyngu ar y trefniadau masnachu y gellir eu parhau'n ddwyochrog rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy. Hyd nes y bydd y DU a'r UE yn cytuno ar berthynas ar gyfer y dyfodol, mae Llywodraeth y DU yn dweud na all y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ddim ond parhau â'r trefniadau masnachu cyfredol sydd ganddynt, lle nad yw Gwlad yr Iâ a Norwy yn

gorfod cadw at eu rhwymedigaethau yn unol â Chytundeb yr AEE, a lle na fyddai'n ofynnol i'r DU gadw at ddeddfwriaeth yr UE. Yr unig faes lle mae hyn yn gyfan gwbl bosibl ar hyn o bryd yw o ran codi tariff wrth fansachu nwyddau.

6. Mae'r Cytundeb Masnach rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy yn cynnwys darpariaethau perthnasol o Gytundeb yr AEE a'r cytundebau dwyochrog er mwyn sicrhau parhad ym masnach nwyddau cyn belled â phosibl. Mae hyn ochr yn ochr â darpariaethau ychwanegol a fydd yn sicrhau bod y cytundeb masnach yn weithredol, sef darpariaethau sefydliadol, masnachu meddyginiaethau, datrys anghydfodau, cydweithredu o ran tollau a rheolau tarddiad.

Masnach rhwng y DU a Gwlad yr Iâ / Norwy

7. £29.5 biliwn oedd cyfanswm y fasnach mewn nwyddau a gwasanaethau rhwng y DU a Gwlad yr Iâ / Norwy yn 2017. Norwy yw deuddegfed partner masnachu mwyaf y DU, gyda masnach rhwng y DU a Norwy yn 2.2% o gyfanswm masnach y DU. Mae Gwlad yr Iâ yn safle 46 o ran partneriaid masnachu mwyaf y DU, sy'n gyfrifol am 0.1% o gyfanswm masnach y DU. Roedd £23.6 biliwn o'r fasnach rhwng y DU a Gwlad yr Iâ / Norwy yn 2017 yn fasnach nwyddau, ac roedd £5.9 biliwn yn fasnach gwasanaethau.

8. Allforiodd y DU werth £6.5 biliwn o nwyddau a gwasanaethau i Norwy yn 2017, gan roi Norwy yn safle 24 o ran marchnad allforio fwyaf y DU. Yn 2017, fe wnaeth y DU fewnforio nwyddau a gwasanaethau gwerth £21.1 biliwn o Norwy, gan roi Norwy yn safle 10 o ran marchnad fewnforio fwyaf y DU.

9. Allforiodd y DU nwyddau a gwasanaethau gerth £0.7 biliwn i Wlad yr Iâ yn 2017, gan roi Gwlad yr Iâ yn safle 70 o ran marchnad allforio fwyaf y DU. Yn 2017, fe wnaeth y DU fewnforio nwyddau a gwasanaethau gwerth £1.2 biliwn o Wlad yr Iâ, gan roi Gwlad yr Iâ yn safle 55 o ran marchnad fewnforio fwyaf y DU.

10. Dyma'r prif allforion nwyddau a gwasanaethau o'r DU i Wlad yr Iâ / Norwy yn 2017:

- Gwasanaethau busnes amrywiol (cyfreithiol, cyfrifyddu, ymgynghori â rheolwyr) - £904 miliwn;
- Gwasanaethau teithio - £716 miliwn;
- Peiriannau a chyfarpar mecanyddol - £648 miliwn;
- Gwasanaethau ariannol - £522 miliwn; ac

- Awyrennau, llongau gofod a rhannau mecanyddol ar eu cyfer - £448 miliwn

11. Dyma'r prif fewnforion nwyddau a gwasanaethau i'r DU o Wlad yr Iâ / Norwy yn 2017:

- Olew neu danwydd mwynau, a chynhyrchion o'u distyllu - £16.2 biliwn;
- Awyrennau, llongau gofod a rhannau mecanyddol ar eu cyfer - £724 miliwn
- Gwasanaethau busnes amrywiol (cyfreithiol, cyfrifyddu, ymgynghori â rheolwyr) - £620 miliwn;
- Gwasanaethau teithio - £552 miliwn; a
- Gwasanaethau cludo - £456 miliwn

12. Yn 2017, roedd masnach nwyddau rhwng Cymru a Gwlad yr Iâ / Norwy yn werth £1.019 biliwn, sy'n 3.0% o holl fasnach Cymru mewn nwyddau. Gyda Norwy oedd y mwyafrif helaeth o'r fasnach. Allforiodd Cymru nwyddau gwerth £87.3 miliwn i Wlad yr Iâ / Norwy yn 2017. Mewnforiodd Cymru nwyddau gwerth £931.7 miliwn o Wlad yr Iâ / Norwy. O'r rhain, roedd £765.5 miliwn yn fewnforion petrolewm, cynhyrchion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig wedi'u mewnfario o Norwy.

13. Data 2015 yw'r data diweddaraf sydd ar gael ar allforion gwasanaethau o Gymru i Norwy - ond nid yw data ar fewnfario gwasanaethau i'w cael. Yn 2015, allforiodd Cymru wasanaethau gwerth £17 miliwn i Norwy, sef 1% o gyfanswm allforion gwasanaethau Cymru. Nid yw'r ffigurau ar gael ar gyfer Gwlad yr Iâ, sydd wedi'u cynnwys yn y categori 'gweddill Ewrop' yn y set ddata hon.

Sut mae'r cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy yn cymharu â chytundeb yr AEE

14. Fel y nodwyd uchod, hyd nes y bydd y DU a'r UE yn cytuno ar berthynas ar gyfer y dyfodol, mae Llywodraeth y DU yn dweud na all y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ddim ond parhau â'r trefniadau masnachu cyfredol sydd ganddynt, lle nad yw Gwlad yr Iâ a Norwy yn gorfod cadw at eu rhwymedigaethau yn unol â Chytundeb yr AEE, a lle na fyddai'n ofynnol i'r DU gadw at ddeddfwriaeth yr UE. Yr unig faes

Ile mae hyn yn bosibl ar hyn o bryd yw o ran codi tariff wrth fansachu nwyddau. Mae nifer o feysydd yng nghytundeb yr AEE nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy. Mae'r rhain yn cynnwys masnach gwasanaethau; aliniad rheoleiddiol; gwasanaethau caffael; a chystadleuaeth a chymorth gwladwriaethol.

15. Yn ôl dadansoddiad Dr Jappe Eckhardt:

Overall the UK Government has done what it can to prevent disruption in trade in goods with these two countries. Yet, this is not the whole story. The most obvious omission is the exclusion of trade in services. In addition, there are other issues that may have implications for trade between Wales and Norway/Iceland, most of which have to do with the fact that the agreement only “covers areas where Norway and Iceland are not constrained by their EEA obligations and where UK’s continued alignment with EU/EEA rules is not required.

Dim ond dwy sefyllfa all olygu bod y cytundeb hwn yn dod i rym:

- a) Os yw'r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb unrhyw gytundeb rhyngddynt ynghylch telerau'r ymadawiad; neu
- b) Os nad yw unrhyw gytundeb a wneir rhwng y DU a'r UE ynghylch ymadawiad y DU yn cynnwys darpariaethau i'r DU barhau i weithredu cytundebau sy'n ymwneud â masnach rhwng yr UE a Gwlad yr Iâ / Norwy, boed hynny'n gytundeb ag un wlad neu'r ddwy wlad.

16. Caiff Cyd-bwyllgor newydd ei sefydlu o dan Erthygl 10 o brif destun y cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy, i sicrhau bod y cytundeb yn cael ei weithredu'n gywir.

Tariffau ar nwyddau diwydiannol

17. Mae ymrwymadau tariff wedi cael eu trosglwyddo rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ac eithrio cwotâu cyfraddau tariff, sydd wedi cael eu haddasu i adlewyrchu na fydd y DU bellach yn aelod o'r UE. Mae tariffau ar nwyddau diwydiannol wedi'u cynnwys yng nghytundeb yr AEE, ac mae'r rhain wedi'u trosglwyddo i'r cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy.

Tariffau ar gynhyrchion amaethyddiaeth a physgodfeydd

18. Mae tariffau cytundeb yr AEE a'r cwotâu cyfraddau tariff ar gynhyrchion amaethyddiaeth a physgodfeydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy gan olygu bod y trefniadau presennol yn parhau.

19. Lle bo'n bosibl, mae maint cwotâu cyfraddau tariff wedi cael eu haddasu yn seiliedig ar dair blynedd o ddata ynghylch lefelau defnydd tollau, ac mae hyn yn rhoi manylion ar ddefnydd gwirioneddol y cwotâu cyfraddau tariff gan fewnforwyr. Mae'n cynnwys gwybodaeth am faint o nwyddau unigol a gafodd eu cludo, a pha ddyddiad y gwnaed hynny. Golyga hyn fod data tollau perthnasol yn cael ei gasglu, gan ddangos maint mewnforyn a'r dyddiad y cânt eu mewnforyn i'r DU, Norwy neu Wlad yr Iâ, a chan ddangos pa gwotâu cyfraddau tariff a ddefnyddiwyd. Lle nad oes gwerth tair blynedd o ddata ynghylch lefelau defnydd tollau, defnyddiwyd yn hytrach ddata ynghylch llyf masnach fel dangosydd. Lle bo maint cwotâu cyfraddau tariff wedi cynyddu yng nghytundeb yr UE ers y cyfnod cyfeiriol, gwnaed cynnydd cymesur i'r data blaenorol i roi ystyriaeth i hyn.

20. Dywedodd swyddogion y Gyfadran Masnach Ryngwladol wrth Bwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi y penderfynwyd ei bod yn briodol peidio efelychu'r cwotâu cyfraddau tariff lle na wnaed dim defnydd o'r cwotâu. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a wnaed gyda chytundebau parhad masnach eraill, ac felly mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r gyfadran roi eglurhad ar hyn.

21. Mae Protocol 3 i Gytundeb yr AEE yn pennu dewisiadau tariff ar gyfer nwyddau amaethyddol wedi'u prosesu. Mae hefyd yn sefydlu offeryn i bennu ffi iawndal am y nwyddau hyn lle bo'r prisiau cyfeiriol yn cael eu pennu a'u diweddarau rhwng Norwy a'r UE yn flynyddol. Nid yw Gwlad yr Iâ yn tueddu i ddefnyddio'r offeryn hwn. Mae'r prisiau cyfeiriol yn sicrhau y cydraddolir y gwahaniaethau rhwng prisiau domestig Norwy a phrisiau marchnad yr UE neu'r byd ar gyfer deunyddiau crai amaethyddol a ddefnyddir wrth greu'r cynhyrchion hyn. Gwneir hyn er mwyn sicrhau amodau teg ar gyfer masnach. Fel arfer, mae prisiau domestig Norwy yn uwch na'r prisiau yn yr UE a gweddill y byd o ganlyniad i amodau amgylcheddol y wlad.

22. Mae'r cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau yn sicrhau bod y dewisiadau tariff sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer nwyddau amaethyddol wedi'u prosesu yn cael eu cadw fel ag y maent ar gyfer y tair gwlad hynny os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Bydd hyn yn sicrhau bod yr

amodau masnachu yn parhau fel y maent i gwsmeriaid a busnesau, i'r graddau lle bo hynny'n bosibl. **Mae Protocol 3 i'r Cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau yn cadw'r offeryn pennu iawndal prisiau (gan roi ystyriaeth i addasiadau).** Mae Erthygl 2 newydd o Brotocol 3 i'r Cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau yn sicrhau na fydd tollau yn cael eu gosod rhwng Norwy a'r DU a rhwng Gwlad yr Iâ a'r DU. Mae'r Erthygl yn datgan na ddylai'r DU o dan y Cytundeb Masnach Nwyddau osod tollau uwch na'r tollau a osodir rhwng Norwy a'r UE a rhwng Gwlad yr Iâ a'r UE o dan Gytundeb yr AEE. Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod tair mantais o wneud hyn. Yn gyntaf, mae'n sicrhau bod yr amodau masnachu presennol yn parhau. Yn ail, ni fydd angen i'r DU ddiwygio'r Cytundeb hwn yn barhaus i efelychu newidiadau mewn tollau. Yn drydydd, ni fydd angen i'r DU gynnal trafodaeth flynyddol ar wahân, gan ddefnyddio adnoddau yn sgil hynny, ynghylch tollau a osodir ar nwyddau amaethyddol wedi'u prosesu fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda Chytundeb yr AEE.

23. Mae Protocol 9 i Gytundeb yr AEE yn pennu dewisiadau tariff ar gyfer nwyddau pysgodfeydd. Mae'r cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau yn cadw'r dewisiadau tariff hyn fel y maent drwy gynnwys darpariaethau Protocol 9 a'u haddasu lle bo angen. Cyn belled â phosibl, mae hyn yn sicrhau parhad i gwsmeriaid a busnesau o ran argaeledd a phris pysgod, yn enwedig pysgod gwyn, ar gyfer diwydiant prosesu pysgod y DU. Mae rhai newidiadau i'r protocol hwn yn y cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy - mae darpariaethau cymorth gwladwriaethol a chystadleuaeth wedi'u diddymu, ac mae diwygiadau technegol eraill wedi'u gwneud.

Trefniadau dwyochrog ar gynhyrchion amaethyddol a physgodfeydd

24. Mae Atodiadau II a III i'r Cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy yn cynnwys y cytundebau a'r protocolau dwyochrog perthnasol sydd ar waith rhwng yr UE, Norwy a Gwlad yr Iâ, ac yn addasu'r protocolau hynny lle bo angen. Mae'r newidiadau hyn yn nodi pa reolau tarddiad fydd yn berthnasol, ynghyd â nifer o newidiadau technegol.

Trefniant dwyochrog rhwng Gwlad yr Iâ a'r DU ar ddiogelu Dynodiadau Daearyddol

25. Mae'r cytundeb rhwng yr UE a Gwlad yr Iâ ynghylch diogelu dynodiadau daearyddol bwydydd a chynhyrchion amaethyddol wedi'i gynnwys yn y cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau. Mae'r trefniadau hyn a drosglwyddir yn sicrhau y bydd dynodiadau daearyddol bwyd-amaeth o'r DU yn

cael eu diogelu yng Ngwlad yr Iâ. Felly hefyd ddynodiadau daearyddol bwyd-amaeth Gwlad yr Iâ yn y DU. Nid oes cytundeb cyfatebol ar ddynodiadau daearyddol bwyd-amaeth rhwng yr UE a Norwy.

26. Nid yw'r trefniadau â Norwy a Gwlad yr Iâ ar gyfer diogelu dynodiadau daearyddol gwin a gwirodydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb hwn gan eu bod yn ddibynnol ar alinio â rheolau'r UE, a bydd y DU yn ceisio sefydlu'r mesurau diogelu priodol wrth fansachu yn y dyfodol.

Rheolau tarddiad

27. Mae Atodiad IV i'r cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy yn ymdrin â rheolau tarddiad. Yn y cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau, cytunwyd y gellir cydnabod deunyddiau a phrosesau'r UE (hynny yw, mewn cyfuniadau) yn allforion y DU i Wlad yr Iâ ac allforion y DU i Norwy (felly hefyd ar gyfer allforion Gwlad yr Iâ i'r DU, ac allforion Norwy i'r DU).

28. Mae'r DU, Gwlad yr Iâ a Norwy yn bartïon contract i'r Confensiwn Rhanbarthol pan Ewropeaidd Mediteranaidd ar reolau tarddiad ffafriol. Mae hwn yn gytundeb amlochrog sy'n cysoni rheolau tarddiad ffafriol ar draws yr ardal Ewropeaidd-Mediteranaidd, ac sy'n datgan y gall partïon contract i'r Confensiwn hwnnw ganiatáu cyfuniadau.

29. Nid yw'r berthynas rhwng y DU â'r Confensiwn ar gyfer y dyfodol wedi'i phenderfynu eto, felly mae'r cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy yn adlewyrchu darpariaethau'r Confensiwn a Phrotocol 4 i Gytundeb yr AEE. Mae hyn yn cynnwys trefniadau ynghylch cyfuniadau gydag addasiadau rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy.

30. Mae dadansoddiad Dr Jappe Eckhardt yn codi mater posibl ynghylch ail-allforio nwyddau'r DU o Norwy neu Wlad yr Iâ i'r UE. Mae'n dweud:

Problems could arise, however, if the good is subsequently exported from Norway/Iceland to an EU member state, because if the EU does not recognise UK materials and/or processing as originating in Norway/Iceland, the good might be considered 'not originating' and thus subject to EU tariffs. So far, the EU has not indicated that it will make such a commitment.

Cymhorthion masnach

31. Mae Erthyglau 9 a 10 wedi'u cynnwys yn y Cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau er mwyn galluogi partïon i weithredu mesurau

gwrth-ddympio a mesurau gwrthbwysol os oes angen. Mae hyn yn ofyniad ychwanegol i'r darpariaethau diogelu sydd wedi'u cynnwys o Gytundeb yr AEE yn Erthygl 8 o'r Cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau. Diben hyn yw i efelychu mai rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy y mae'r Cytundeb, yn hytrach na chytundeb i greu marchnad sengl unffurf, ddeinamig ar draws yr AEE, fel y mae Cytundeb yr AEE yn amcanu i'w gyflawni. Mae'r addasiadau a wnaed yn Atodiad I i Erthygl 4 o Protocol 9 yn sicrhau y gellir defnyddio cymhorthion masnach ar gyfer cynhyrchion pysgod hefyd.

Datrys anghydfodau

32. Mae'r Cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau yn adlewyrchu effeithiau'r darpariaethau yng Nghytundeb yr AEE ar gyfer datrys anghydfodau, heblaw'r addasiadau yr oedd angen eu gwneud.

33. Mae'r bennod ar ddatrys anghydfodau yng Nghytundeb yr AEE yn gwneud darpariaeth i'r partïon ofyn i Lys Cyfiawnder Ewrop i roi dyfarniad ar ddehongliad yng Nghytuniadau perthnasol yr UE. Yr unig dro y bydd hyn yn berthnasol fydd lle bo anghydfod yn ymwneud â dehongliad darpariaethau Cytundeb yr AEE sydd union yr un fath o ran eu cynnwys â Chytuniadau'r UE. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i dileu gan nad yw'n berthnasol i'r DU yng nghyd-destun y Cytundeb hwn.

34. Un o'r effeithiau yn sgil trosglwyddo'r penodau ar ddatrys anghydfodau o gytundebau masnach presennol yr UE yw, os bydd anghydfod yn codi, bydd y DU yn uniongyrchol gyfrifol am unrhyw gostau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r broses o ddatrys anghydfod.

Rhannau o Gytundeb yr AEE nad ydynt wedi'u trosglwyddo i'r Cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy

Caffael

35. Ar hyn o bryd, mae rhwymedigaethau caffael Llywodraeth y DU gyda Gwlad yr Iâ a Norwy yn cael eu gosod gan y Ddeddf Caffael Llywodraeth a Chytundeb yr AEE. Mae Cytundeb yr AEE yn ei gwneud yn ofynnol i Norwy a Gwlad yr Iâ weithredu rheolau'r UE ar gyfer caffael cyhoeddus ac mae'n gwarantu mynediad cyfatebol i'r farchnad gaffael ar lefelau sy'n cyfateb i'r rhai ym marchnad fewnol yr UE. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r rhwymedigaethau yn y Ddeddf Caffael Llywodraeth o ran mynediad i'r farchnad ac o ran gofynion gweithdrefnol.

36. Ar 27 Chwefror 2019, cadarnhaodd partïon i'r Ddeddf Caffael Llywodraeth y gall y DU ymrwymo i'r Ddeddf fel aelod annibynnol pan fydd yn gadael yr UE, ac yn ôl polisi Llywodraeth y DU dyna yw'r bwriad. Bydd y rhwymedigaethau caffael

rhyngwladol hynny rhwng y DU, Norwy a Gwlad yr Iâ sy'n deillio o'r Ddeddf Caffael Llywodraeth yn parhau fel y maent ar ôl i'r DU ymrwymo i'r Ddeddf.

37. Nid yw'r rhwymedigaethau caffael cyhoeddus a geir yng Nghytundeb yr AEE wedi'u trosglwyddo fel rhan o'r Cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy ar fasnach nwyddau. Y rheswm am hyn yw bod Cytundeb yr AEE yn ei gwneud yn ofynnol i'r partïon weithredu rheolau Marchnad Sengl yr UE ar gyfer caffael cyhoeddus. Mewn senario heb gytundeb, bydd y DU yn gadael Marchnad Sengl yr UE, ac felly ni fyddai'n bosibl i'r DU efelychu darpariaethau Cytundeb yr AEE ar gaffael mewn cytundeb â Norwy a Gwlad yr Iâ.

38. Ar gyfer busnesau yn y DU, mae hyn yn golygu (o'r diwrnod ymadael ymlaen) y byddant yn colli'r gallu sicr i ymgeisio am gontractau caffael Norwy a Gwlad yr Iâ sydd wedi'u cynnwys yng Nghytundeb yr AEE ac sydd y tu hwnt i'r rhwymedigaethau caffael a geir yn y Ddeddf Caffael Llywodraeth. Mae busnesau yn y DU yn ennill gwerth tua £14 miliwn o'r contractau hyn y flwyddyn. Fodd bynnag, ni fydd mynediad ychwanegol i farchnad y DU yn sgil Cytundeb yr AEE ond yn cael ei gynnal yn Norwy a Gwlad yr Iâ am 18 mis. Mae busnesau o Norwy a Gwlad yr Iâ yn ennill contractau gwerth tua £16 miliwn bob blwyddyn. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau y gellir parhau i gael mynediad at y contractau hyn am y 18 mis nesaf. Byddai parhau i gael mynediad i wneud cais am y contractau yn dibynnu ar y trefniadau sydd ar waith ar ôl y dyddiad hwnnw.

39. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud nad yw'n disgwyl y bydd unrhyw oblygiadau ar gontractau presennol o Norwy a Gwlad yr Iâ sydd gan gwmnïau o'r DU.

Rhwystrau technegol i fasnach

40. Oherwydd bod cryn dipyn o alinio rheoleiddiol a rhyng-ddibyniaeth rhwng Gwlad yr Iâ, Norwy a'r UE, yn absenoldeb cytundeb rhwng y DU a'r UE nid yw'n bosibl adlewyrchu'r rhwystrau technegol i fasnach y darparwyd ar eu cyfer yng Nghytundeb yr AEE heb fod angen gwneud ymrwymïadau cyfreithiol i gyfraith yr UE. Yn y tymor byr iawn, ar ôl ymadael â'r UE bydd rheoliadau technegol, safonau ac asesiad cydymffurfio y DU bron ag alinio'n berffaith â Gwlad yr Iâ a Norwy. Serch hynny, mae Cytundeb yr AEE yn cyfyngu ar allu Gwlad yr Iâ a Norwy i ddod i gytundeb cyd-gydnabyddiaeth ar gyfer canlyniadau asesiadau ac ardystiadau cydymffurfiaeth gyda'r DU yn annibynnol ar yr UE.

41. Mae dadansoddiad Dr Jappe Eckhardt yn nodi bod hyn yn sefyllfa debyg i'r cytundeb rhwng y DU a'r Swistir, lle'r oedd y ddwy wlad yn dymuno cael prosesau

cyd-gydnabyddiaeth ond nid oeddent yn gallu dod i ben â hynny mewn sawl maes.

42. Mewn senario heb gytundeb, ni fydd Cyrff Hysbysedig yn y DU bellach yn cael eu cydnabod gan Wlad yr Iâ na Norwy, ac felly mae Cyrff Hysbysedig y DU sy'n ardystio nwyddau a gaiff eu marchnata yng Ngwlad yr Iâ neu Norwy ar hyn o bryd yn debygol o wynebu costau ychwanegol a cholli busnes. Er mwyn lliniaru effaith hyn, mae'r DU, Gwlad yr Iâ a Norwy wedi cytuno i gyfnewid 'llythyrau' nad ydynt yn gyfreithiol rwymol ar rwystrau technegol i fasnach (sydd ar wahân i'r Cytundeb) sy'n cadarnhau y bydd polisi'r DU ar nwyddau'r UE a werthir yn y DU hefyd yn berthnasol i Wlad yr Iâ a Norwy, a bydd Gwlad yr Iâ a Norwy yn gwneud yr un fath ar gyfer nwyddau'r DU yn ôl safonau'r UE.

Mesurau glanweithdra/ffytoiechydol

43. Nid yw'r mesurau glanweithdra/ffytoiechydol yng Nghytundeb yr AEE wedi cael eu cynnwys yn y cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy. Oherwydd bod cryn dipyn o alinio rheoleiddiol a rhyng-ddibyniaeth rhwng Gwlad yr Iâ, Norwy a'r UE, yn absenoldeb cytundeb rhwng y DU a'r UE nid yw'n bosibl adlewyrchu darpariaethau glanweithdra/ffytoiechydol Cytundeb yr AEE heb fod angen ymrwymo i gyfraith yr UE. Mewn sefyllfa heb gytundeb, ni fydd unrhyw newid mewn gofynion diogelwch bwyd a gofynion mewnforio milfeddygol, ac ni fydd nwyddau nad ydynt yn destun gwiriadau mewnforio ar hyn o bryd yn destun gwiriadau pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.

44. Mewn llythyrau nad ydynt yn gyfreithiol rwymol, mae Gwlad yr Iâ a Norwy wedi cytuno i drin mewnforion y DU yn yr un ffordd ag y mae'r UE yn eu trin os na cheir cytundeb.

45. Mae Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi yn nodi bod swyddogion yr Adran dros Fasnach Ryngwladol wedi egluro y bydd allforwyr anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid yn y DU yn dod yn ddarostyngedig i ofynion trydydd gwlad. Er enghraifft, bydd angen cynhyrchu dogfennau ychwanegol neu gludo nwyddau drwy safle arolygu ar y ffin.

46. Yn ogystal, dywedodd Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd na fydd Norwy na Gwlad yr Iâ ond yn gallu derbyn mewnforion anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid o'r DU unwaith y bydd y DU wedi'i 'rhestru' gan y Comisiwn Ewropeaidd fel trydedd wlad at ddibenion iechyd anifeiliaid.

47. Mae dadansoddiad Dr Jappe Eckhardt yn dangos bod yr ansicrwydd ynghylch allforion anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid o'r DU yn debyg i'r

ansicrwydd yn y cytundeb masnach rhwng y DU a'r Swistir, gan fod y Swistir yn defnyddio rhestr yr UE o drydydd gwledydd.

Masnach Gwasanaethau

48. Ni fydd y mynediad ffafriol a geir trwy fanteisio ar farchnad sengl yr UE yn cael ei drosglwyddo i'r Cytundeb rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy. Y rheswm am hyn yw'r gofyniad i aelodau'r AEE alinio'n agos â chyfraith yr UE ac felly mae'n ddibynnol ar gytundeb rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n dilyn na fyddai dim mesurau ar waith i gefnogi masnach gwasanaethau gyda Norwy a Gwlad yr Iâ ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd gan fod trefniadau parhad ar waith mewn rhai sectorau.

Mewnbwn arbenigol

49. Mae Dr Jappe Eckhardt o Brifysgol Efrog wedi rhoi mewnbwn arbenigol wrth inni ystyried y cytundeb hwn, ac mae ei gyngor wedi cyfrannu at y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn.

Adroddiad gan Bwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi

50. Ar 15 Mai, cyflwynodd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad ar y cytundeb. Roedd yr adroddiad hwnnw'n tynnu sylw at y cytundeb am ddau reswm penodol. Yn gyntaf, mae'n gytundeb gwleidyddol bwysig sy'n arwain at faterion polisi cyhoeddus y gallai Tŷ'r Arglwyddi ddymuno eu trafod. Yn ail, mae gwahaniaethau sylweddol yn y trefniadau sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb o gymharu â'r sefyllfa bresennol.

51. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad a ganlyn:

Er y cedwir dewisiadau tariff fel y maent, bydd y Cytundeb Masnach yn arwain at newid sylweddol yn natur perthynas fasnachol y DU â Gwlad yr Iâ a Norwy. Ni fydd yn mynd i'r afael â rhwystrau i fasnachu nwyddau nad ydynt yn dariffau, ac ni chaiff masnach gwasanaethau ei heithrio'n llwyr. At hynny, mae cryn wahaniaethau yn y trefniadau sefydliadol a'r mecanweithiau gorfodi. Rydym yn cydnabod bod nodweddion penodol o Gytundeb yr AEE, a gynlluniwyd i sicrhau integreiddio economaidd trwy alinio rheoleiddiol, wedi cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r Llywodraeth i drosglwyddo trefniadau presennol gyda Norwy a Gwlad yr Iâ pe ceir Brexit heb gytundeb. Felly, rydym yn croesawu bwriad y partïon i aildechrau'r trafodaethau ar eu perthynas fasnachol cyn

gynted â phosibl, os bydd y Cytundeb Masnach yn dod i rym, gyda'r bwriad o ddisodli'r Cytundeb hwnnw.

Casgliadau ac argymhelliad

Conclusion 1. Nid mater syml o drosglwyddo mo'r cytundeb hwn. Fel y mae ar hyn o bryd, mae bylchau sylweddol yn y parhad y byddai'n ei gynnig petai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, gan gynnwys bylchau mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Conclusion 2. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn trafod yn llawn â Llywodraeth Cymru wrth i'r cytundeb hwn gael ei ddatblygu yn y dyfodol, ac rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi gwybod inni am unrhyw gynnydd.

Recommendation 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r bylchau yn y trefniadau parhad o dan y cytundeb hwn, gan sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cael gwybod beth yw goblygiadau'r bylchau hyn i Gymru, gan gymryd camau i'w lliniaru.